



Swansea University
Prifysgol Abertawe

Polisi a Gweithdrefnau Buddsoddi Moesegol Prifysgol Abertawe

Dyddiad yr adolygiad diwethaf: Mehefin 2014

1. Cyflwyniad

Caiff cronfeydd gwaddol y Brifysgol eu buddsoddi drwy reolwyr buddsoddi'r Brifysgol, sef Barclays Wealth ar hyn o bryd. Bwriad Prifysgol Abertawe yw buddsoddi'r arian hwn mewn ffyrdd sy'n gyson â chenhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol fel y nodir yn y Cynllun Strategol. I'r diben hwn, mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i fabwysiadu'r Polisi Buddsoddi Moesegol canlynol o ran buddsoddi'r cronfeydd hyn.

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod y Brifysgol yn gwneud yr holl benderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn modd cyfrifol, a'r prif egwyddor arweiniol yw creu arian, drwy incwm neu dwf cyfalaf, a ddefnyddir i ddatblygu gwaith y Brifysgol. Bydd materion cymdeithasol hefyd yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi.

2. Cwmpas

Bydd y polisi hwn yn berthnasol i fuddsoddi cronfeydd gwaddol y Brifysgol.

Caiff y cynlluniau pensiwn a ddefnyddir gan y Brifysgol eu cyfansoddi fel cyrff corfforaethol ar wahân gyda'u Bwrdd Ymddiriedolwyr eu hunain, ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y polisi hwn.

3. Polisi

3.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i sicrhau ei bod yn gwneud pob penderfyniad ynghylch buddsoddi mewn modd cyfrifol, er mwyn cael cydbwysedd rhwng sicrhau'r elw mwyaf drwy incwm neu dwf cyfalaf a fydd yn datblygu gwaith y Brifysgol, a buddsoddi mewn modd moesegol.

3.2 Nid yw'r Brifysgol yn buddsoddi'n uniongyrchol, na thrwy gronfeydd ar y cyd, mewn sefydliadau sy'n rhan o'r diwydiant tybaco yn bennaf, sy'n gwneud swm sylweddol o'u trosiant o weithgynhyrchu cynhyrchion tybaco. At ddibenion y polisi hwn, ystyr 'sylweddol' fydd mwy na 10% o'u trosiant.

3.3 Wrth benderfynu pa gwmnïau i fuddsoddi ynddynt, ni fydd y Brifysgol yn buddsoddi'n fwriadol mewn cwmnïau neu sefydliadau eraill lle pennir bod eu gwerthoedd cyfrifoldeb cymdeithasol yn anghyson â rhai y Brifysgol; neu rhai y mae rheolwr y cyllidebau o'r farn eu bod yn anghyson â chenhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol.

4. Gweithdrefn ar gyfer ymgysylltu

4.1 Caiff y polisi ei gyflwyno ar dudalennau gwe'r Brifysgol er mwyn galluogi rhanddeiliaid perthnasol i ymgysylltu ag ef.

4.2 Bob blwyddyn, bydd y Brifysgol yn cyhoeddi rhestr o'r holl gwmnïau a chyllidebau y caiff y cronfeydd gwaddol eu buddsoddi ynddynt. Bydd y rhestr hon ar gael ar gais gan y Cyfarwyddwr Cyllid.

4.3 Gall unrhyw gorff cynrychiadol yn y Brifysgol (e.e. Undeb y Myfyrwyr, Undeb Llafur neu Bwyllgor) gyflwyno sylwadau i'r Is-bwyllgor Buddsoddi mewn perthynas ag unrhyw fuddsoddiad mewn cwmni neu gronfa y mae ei (g)weithgareddau neu ei (g)werthoedd, ar sail tystiolaeth eglur, yn mynd mor bell oddi wrth werthoedd craidd y Brifysgol fod hyn yn achos pryder difrifol. Dylid cyflwyno sylwadau o'r fath yn y lle cyntaf i Reolwr Cynaliadwyedd y Brifysgol.

4.4 Bydd yr Is-bwyllgor Buddsoddi yn ystyried unrhyw sylwadau o'r fath, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Buddsoddi penodedig, yn unol â'r meini prawf canlynol:

- A yw'r materion a godwyd wedi'u profi?
- I ba raddau y maen nhw'n ystyried bod y buddsoddiad yn mynd yn groes i genhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol, fel y nodir yn y Cynllun Strategol?
- Effaith ar risg, elw ac amrywiaeth y portffolio buddsoddi

Ar sail y meini prawf hyn, bydd yr Is-bwyllgor Buddsoddi yn gwneud penderfyniad i barhau â'r buddsoddiad perthnasol neu dynnu yn ôl, a bydd yn cyfleu'r rhesymau dros y penderfyniad i'r grŵp sy'n codi'r pryder.

5. Adolygu'r polisi a phwy sy'n berchen arno

5.1 Y Cyfarwyddwr Cyllid fydd yn berchen ar y polisi hwn, a bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol gan yr Is-bwyllgor Buddsoddi.